# YDI DYSGEIDIAETH Y DRINDOD YN YSGRYTHUROL?

*Nodyn i'r siaradwr:*
Dangoswch beth mae'r ysgrythurau'n ei ddweud am wir hunaniaeth Jehofah, Iesu, a'r ysbryd sanctaidd. Peidiwch â bychanu'r rhai sy'n credu yn y Drindod. Apeliwch at eu synnwyr rheswm a'u cariad at wirionedd

**PWYSIGRWYDD ARCHWILIO DYSGEIDIAETH Y DRINDOD** (6 mun.)

Mae'r Drindod wedi bod yn destun dadl ers amser maith gyda rhai yn dweud ei bod wedi'i seilio ar y Beibl, ac eraill mwy beirniadol yn dweud fel arall

Yn ôl yr athrawiaeth mae 'na dri pherson dwyfol—y Tad, y Mab, yr Ysbryd Glân

Y gred ydi fod pob un yn dragwyddol, yn hollalluog, yn Dduw, ac eto gyda'i gilydd dim ond yn un Duw (*w*91 11/1 21; *rs* 405)

Mae'r athrawiaeth yn ganolog i lawer o grefyddau Byd Cred (*w*91 11/1 19)

Mae gan rai crefyddau sydd heb fod yn Gristnogol ddysgeidiaeth debyg (*sh* 115)

Yn y gorffennol fe gafodd rhai eu dedfrydu i farwolaeth am wadu athrawiaeth y Drindod (*w*87 6/15 4; *w*84 2/1 3)

Mae'n bwysig gwybod ydi'r ddysgeidiaeth yn Ysgrythurol ai peidio

Mae Duw yn gofyn inni ei addoli mewn gwirionedd (Darllen Ioan 4:24)

Mae angen gwybod ydi athrawiaeth y Drindod yn cyflawni'r gofyn hwn

Gallwn benderfynu hyn wrth gymharu'r athrawiaeth gyda'r gwirionedd—Gair Duw (Darllen Ioan 17:17)

Mae'r Beibl yn datgelu'r gwirionedd am Dduw, Iesu, a'r ysbryd glân

**JEHOFAH YN UNIG SY'N HOLLALLUOG** (12 mun.)

Mae'r Beibl yn dweud fod Duw yn hollalluog a bod ganddo enw personol (Gen 17:1; Ex 18:11; Salm 83:18 [*BCL*]; Dat 16:7)

Yn y Beibl, dim ond Jehofah sy'n cael ei alw'n Hollalluog—neb arall (*it*-1 970)

Ac yntau'n Greawdwr pob peth, mae Jehofah wedi bod erioed, heb ei greu (Dat 4:11; 10:6; *it*-2 13)

Mae'r Beibl yn dweud ei fod "er tragwyddoldeb" (Salm 90:2; 93:2)

Jehofah yn unig sydd heb ddechrau a heb ddiwedd (Salm 90:2; 1Tim 1:17)

Mae'r Ysgrythurau Hebraeg a Groeg fel ei gilydd yn dweud mai un Duw ydyw, Bod unigryw (*g*78 11/22 28)

'Nid oes un arall' (Deut 4:35; Eseia 45:5; *ti* 13; *it*-2 511)

Hyd yn oed wedi i Iesu esgyn i'r nefoedd 'roedd yr apostolion yn parhau i gyflwyno'r un darlun (1Cor 8: 4-6; 1Pedr 1:3; 1Ioan 2:1)

Oherwydd hyn, mae L. L. Paine, athro hanes yr eglwys yn dweud: "Monotheistiaeth yn bendant sydd yn yr Hen Destament. Bod unigol personol ydi Duw. Mae'r syniad y gellir canfod trindod yno . . . yn gwbl ddi-sail. . . . 'Does 'na ddim toriad rhwng yr Hen Destament a'r Newydd. Mae'r traddodiad undduwaidd yn cael ei barhau." (*ti* 12-13)

Mae'r hyn mae'r Beibl yn ei ddweud am Dduw—mai ef yn unig sy'n hollalluog, mai ef yn unig sydd heb ddechrau iddo, ei fod yn un Duw—yn gwbl groes i ddysgeidiaeth y Drindod

**IESU—WEDI'I DDYRCHAFU OND NID YN GYFARTAL** (12 mun.)

Mae Iesu wedi'i ddyrchafu i safle uchel iawn (Phil 2:9-11)

Mae'n cael ei alw'n "Dduw cadarn" ond nid byth yn Hollalluog (Eseia 9:6, *BCL*)

Drwy'r holl Ysgrythurau Groeg mae Iesu'n cael ei gyfeirio ato fel Mab Duw nid Duw'r Mab (*w*88 6/1 11-12)

Tystiodd Duw ei hun mai Ei Fab ydi Iesu (Marc 1:11; Luc 9:35)

Dywedodd Iesu hefyd mai Mab Duw ydi e (Ioan 3:16, 18; 10:36)

Fe dystiodd eraill yn yr un modd (Math 14:33; 27:54; Ioan 1:34)

"Yr *unig* wir Dduw" oedd yr hyn ddywedod Iesu am ei Dad (Ioan 17:3)

'Roedd Iesu'n bod cyn dod yn ddyn ond 'roedd iddo "darddiad," neu ddechreuad (Micha 5:2; Ioan 3:13; *w*98 6/15 24; *it*-2 52)

Ef oedd "dechreuad creadigaeth Duw" (Dat 3:14; *ti* 14)

Mae 'na gyfeirio ato fel "cyntafanedig" ac "unig-anedig Fab," *BCL* (Col 1:15,16; 1Ioan 4:9; *ti* 15-16; *rs* 408)

Mae troednodyn yn Hab 1:12 (*BCLan*, 1908) yn dweud am y Tad "nid wyt yn marw." Mor wahanol ydi hyn i Iesu a gafodd ei ladd

D'wedodd Iesu: "Myfi a'r Tad, un ydym" (Ioan 10:30)

Undod o ran pwrpas a gweithredu ydi hyn (Ioan 17:20-23; *ti* 24; *rs* 424)

Fel mae Cristnogion yn eiddo Iesu, felly mae yntau'n eiddo Duw (1Cor 3:23)

Nid rhannau cyfartal mewn un Duwdod ydi'r Tad a'r Mab (Ioan 14:28; 1Cor 11:3)

Mewn gweledigaeth o'r nefoedd, gwelodd Steffan Iesu "ar ddeheulaw Duw" nid yn rhan o Dduw triunol (Actau 7:55, 56)

Mi welodd e ddau unigolyn gwahanol yno (*w*88 6/1 14)

Felly' 'dyw Iesu ddim yn rhan o un Duw (1Cor 8:6)

No. 129-W 8/00 Printed in Britain

Mae dysgeidiaeth y Drindod yn groes i'r hyn mae'r Ysgrythurau'n ein dysgu ni am Iesu—'dyw Iesu ddim yn hollalluog, 'roedd iddo ddechreuad, ac mae'n bod ar wahan i Jehofah Dduw

**GRYM YDI'R YSBRYD SANCTAIDD, NID PERSON** (8 mun.)

'Dyw'r Beibl ddim yn sôn yn unman am yr Ysbryd Glân fel petai e'n berson

Mewn gweledigaeth fe welodd Daniel y Tad, y Mab, yr angylion, ond welodd e mo'r Ysbryd Glân yn berson (Dan 7:9, 10, 13; *w*87 6/15 5)

Fe welodd Steffan ogoniant Duw a'r Crist atgyfodedig, ond 'does 'na ddim sôn am weld yr Ysbryd Glân (Actau 7:55; *w*88 6/1 14)

Fe gafodd yr Apostol Ioan weledigaeth nefol, yn dangos Jehofah ac Iesu fel personau, ond nid oedd yr ysbryd glân yn cael ei ddarlunio fel person (Dat 4:2; 5:5, 6; *re* 76, 83-5; *w*87 6/15 5)

'Does gan yr Ysbryd Glân ddim enw personol (*w*91 1/15 4)

Yn yr Ysgrythurau mae'r Ysbryd Glân yn cael ei restru gyda phethau amhersonol eraill (Actau 6:5; 2Cor 6:4-6; *w*91 1/15 4)

Mae'r Beibl yn disgrifio'r Ysbryd Glân fel grym gweithredol Duw

Disgynnodd yr Ysbryd Glân ar Iesu wrth gael ei fedyddio (Marc 1:10)

Ysbryd a nerth Jehofah oedd yn galluogi Iesu i wella cleifion trwy wyrth, codi'r meirw, a rheoli grymoedd natur (Luc 5:17; 8:22-25, 49-56; *g*99 1/8 27; *it*-1 1056; *it*-2 1020)

Mae'r Ysbryd Glân yn cael ei alw'n "fys Duw" oherwydd mai cyfrwng Duw ydi e i gyflawni ei ewyllys (Ex 31:18; cymharer Mathew 12:28 â Luc 11:20) (*w*87 6/15 5; *si* 10; *it*-1 832)

Mae'r grym gweithredol yn cael ei ddefnyddio gan Dduw i sawl pwrpas (Salm 33:6; 143:10; Eseia 30:27, 28; 2Pedr 1:20, 21)

Mae'n amhosib' cysoni dysgeidiaeth y Drindod â'r hyn mae'r Ysgrythurau'n ei ddatguddio am yr Ysbryd Glân

**MAE LLAWER O DESTUNAU'R BEIBL YN GWRTHBROFI'R DRINDOD** (4 mun.)

Ym Marc 13:32, fe ddywedodd Iesu ynglŷn â dydd ac awr y gorthrymder mawr, "ni ŵyr neb . . . ond y Tad"

Fedr y Tad a'r Mab felly ddim bod yn gyfartal os nad ydi'r Mab yn gwybod popeth mae'r Tad yn ei wybod

Er bod Trindodwyr yn dadlau fod dyndod y Mab yn ei gyfyngu rhag gwybod, fedran' nhw ddim esbonio pam nad ydi'r Ysbryd Glân yn gwybod

Geiriau Iesu yn Luc 10:22 oedd: "Ni ŵyr neb pwy yw'r Mab ond y Tad, na phwy yw'r Tad ond y Mab"

Unwaith eto, gan nad ydi'r Ysbryd Glân ddim yn berson, 'dyw e ddim yn gwybod

Mae dadlau i ddysgeidiaeth y Drindod gael ei derbyn drwy draddodiad yn ddiweddarach, a hithau heb fod yn yr Ysgrythurau, yn croesddweud geiriau Paul (Darllen Galatiaid 1:8)

Mae'n amlwg felly fod y Beibl yn gwrthbrofi pob agwedd ar ddysgeidiaeth y Drindod

**BENDITHION TRAGWYDDOL YN AROS Y RHAI SY'N ADDOLI DUW MEWN GWIRIONEDD** (3 mun.)

Fe ddylem ni gasáu twyll a charu gwirionedd (Salm 119:163)

Felly, ymwrthodwch â thwyll dysgeidiaeth y Drindod a derbyn y gwirionedd am Dduwdod unigryw Jehofah (Salm 86:11)

Drwy gyfrwng ei air, mae Jehofah, ein Hathro Mawr, yn dangos inni'r wir ffordd ("dyma'r ffordd") i'w addoli (Eseia 30:20, 21)

Wrth ychwanegu "rhodiwch ynddi," mae e'n ein hannog i weithredu

Daw bendithion tragwyddol o ddilyn yr anogaeth hon a gwneud ewyllys Duw, a'i addoli mewn gwirionedd (1Ioan 2:17)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd sydd wedi ei amlinellu, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)